Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

12. Newid hinsawdd

12.4 Newid Hinsawdd cyfiawnder cymdeithasol - grwpiau bregus

Grwpiau sy'n fregus yn wyneb newid yn yr hinsawdd

Yn gyffredinol y grwpiau o bobl sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan newid yn yr hinsawdd yw'r rheini sydd eisoes wedi'u nodi fel bod yn agored i niwed neu'n ddifreintiedig mewn rhyw ffordd arall, yn fyd-eang ac yn y DU.

Mae Adolygiad Stern yn cydnabod y bydd y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn teimlo effeithiau'r newid yn yr hinsawdd fwyaf oherwydd mai nhw sydd lleiaf abl i addasu i'r newidiadau a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Y bobl a nodwyd fel bod mewn perygl yw'r rheini sydd dan anfantais oherwydd eu hiechyd a'u symudoledd, y rheini sydd â diffyg ymwybyddiaeth o'r newidiadau, y rheini sydd â llai o gyfalaf cymdeithasol a'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas. Bydd y newid yn yr hinsawdd felly'n dwysáu'r anghyfartaleddau hyn ac anghyfartaleddau eraill sy'n bodoli – mae felly'n fater o gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb.

Yn aml ni thynnir sylw at effaith y newid yn yr hinsawdd ar grwpiau sy'n agored i niwed mewn polisi newid hinsawdd na'i naratif cyffredinol. Mae angen ei ystyried wrth addasu i'r newid yn yr hinsawdd - gan ystyried sut i newid polisïau a gwasanaethau i adlewyrchu patrymau tywydd y dyfodol (e.e. cynnydd yn y boblogaeth o ymfudwyr, newid mewn digwyddiadau tywydd fel cyfnodau poethach a gwlypach, digwyddiadau tywydd mwy eithafol). Mae hefyd angen ei ystyried wrth geisio lliniaru'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau ein hallbwn carbon - gan symud at economi carbon isel.

Mae'r diffyg o ran integreiddio'r effeithiau ar grwpiau sy'n agored i niwed i addasiadau a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei ffyrnigo gan anallu'r bobl ddifreintiedig i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi sy'n ymwneud â'r hinsawdd.

Mae angen i'r trydydd sector felly gydnabod pwysigrwydd y newid yn yr hinsawdd fel mater o gyfiawnder cymdeithasol ac ymateb drwy gymryd rhan yn y ddadl a chynnig atebion sy'n gwella bywydau pobl yn hytrach na'u llesteirio ymhellach.

Gall deall y materion o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, effeithiau'r newidiadau yn y tywydd a'r newidiadau i'r ffordd rydym yn byw ein bywydau i fynd i'r afael â'n hallyriadau, fod yn heriol, yn enwedig gan fod yn rhaid i ni ystyried rhywbeth nad ydym wedi arfer ag ef yn uniongyrchol. Gall meddwl am bolisïau a mentrau i fynd i'r afael â hwy fod hyd yn oed yn anos.

Yn fras, ceir tri dimensiwn allweddol i'r cysylltiad rhwng y newid yn yr hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol; anghydraddoldeb triphlyg:

- dosbarthiad anghyfartal o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (llifogydd, adnoddau dŵr);
- cyfrifoldebau anghyfartal am y newid yn yr hinsawdd;
- costau lliniaru ac addasu anghyfartal

Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd

Bydd patrymau tywydd newidiol yn dod â chanlyniadau a fydd yn effeithio ar nifer o agweddau ar ein bywydau. Er enghraifft, bydd straen cynyddol ar ein gwasanaethau brys oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol, bydd trafnidiaeth a systemau eraill yn wynebu ymyrraeth fynych a bydd nifer o gyflyrau iechyd yn gwaethygu, megis marwolaethau yn ymwneud â'r galon, bydd alergeddau resbiradol yn cynyddu oherwydd bydd mwy o lwydni yn tyfu mewn tai yn sgil gaeafau mwy llaith.

Bydd tueddiadau byd-eang ehangach yn ymwneud â'r hinsawdd hefyd yn cael effaith ar y DU. Mae'n debygol y bydd prisiau ynni, bwyd a nwyddau eraill yn codi os bydd caiff cadwynni cyflenwi ledled y byd eu haflonyddu neu os bydd ffynonellau'n diflannu. Mae ymfudo oherwydd yr hinsawdd i'r DU yn debygol o gael effaith ar gydlyniant cymunedol a darpariaeth gwasanaethau.

Trawsnewid i fod yn gymdeithas carbon isel

Mae gwneud y trawsnewidiad at economi carbon isel yn rhan o'r ymagwedd tuag at leihau ein hallyriadau carbon (lliniaru). Mae angen i'r trawsnewidiad hwn fod yn newid sylweddol mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a phrinder adnoddau a fydd yn atal newid catastroffig yn yr hinsawdd ac ar yr un pryd yn cynyddu, yn hytrach na thanseilio, cyfiawnder cymdeithasol. Gan ystyried effeithiau gwahaniaethol tebygol unrhyw broblemau, dylid gwneud y trawsnewidiad hwn mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfiawn. Gallai methu ag ateb yr her hon olygu bod degawdau i ddod yn cael eu nodweddu gan gyfres o argyfyngau cymdeithasol, economaidd ac ecolegol hunanatgyfnerthol.

Mae angen nodi cyfleoedd ar gyfer dulliau newydd yn seiliedig ar 'gylchoedd rhinweddol'. Mae angen dilyn amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylchedd yn gydlynol. Ym mhob maes – megis ynni, iechyd a thrafnidiaeth – ceir cyfleoedd ar gyfer cylchoedd rhinweddol sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol hunanatgyferthol. Mae strategaeth datgarboneiddio gynhwysfawr genedlaethol a rhyngwladol yn cynnig y cyfle i fynd i'r afael â nifer o drafferthion cymdeithasol yn ogystal â rhai amgylcheddol. Ar y cyd ag ymdrechion ehangach i ail-strwythuro ein system economaidd ac ariannol ac ailwerthuso gwerthoedd craidd cymdeithas, gallwn greu byd tecach wedi'i ddatgarboneiddio ar gyfer ein hunain, yr amgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol.

Ceir nifer o fentrau a phrosiectau sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng cyfiawnder cymdeithasol a'r newid yn yr hinsawdd a hefyd yn dangos ymagwedd lle eir i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a thlodi neu anfantais ar yr un pryd ac sy'n nodi dulliau sy'n galluogi trawsnewidiad cymdeithasol gyfiawn. Mae gan adroddiad Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru *Torri carbon: creu swyddi* enghreifftiau o ddulliau i fynd i'r afael â newid hinsawdd sydd hefyd yn cynnig atebion i broblemau cymdeithasol.

http://issuu.com/scccymru/docs/scc__cutting_carbon_report_final?mode=embed&viewMode=presentation&layout=http%3A%2F%2Fskin.issuu.com%2Fv%2Flight%2Flayout.xml&showFlipBtn=true

Sefydliad Joseph Roundtree

Mae gan Sefydliad Josepth Roundtree raglen ymchwil barhaus sy'n archwilio effeithiau cyfiawnder cymdeithasol y newid yn yr hinsawdd. O fewn yr ymchwil hwn caiff anfantais hinsoddol ei bennu nid yn unig gan y tebygolrwydd a'r graddau y mae unigolyn neu grŵp yn agored i berygl ond hefyd gan eu tebygolrwydd cymdeithasol o gael eu heffeithio gan beryglon o'r fath. Mae bregusrwydd yn fater o sut mae digwyddiadau allanol yn trosi i newidiadau mewn lles. Mae unigolyn neu grŵp yn fwy bregus os ydynt yn llai abl i ymateb i bwysau a roddir ar eu lles. Mae'r adroddiad yn nodi dwy agwedd ar eu bregusrwydd:

Daearyddiaeth bregusrwydd ac anfantais o ran yr hinsawdd

Ardaloedd ledled y DU sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan effeithiau'r hinsawdd ac yn llai tebygol o addasu. Canfu bod y rhan fwyaf o gymdogaethau sy'n hynod o agored i niwed yn gymdeithasol wedi'u lleoli mewn canolfannau trefol mawr. Ceir hefyd elfen arfordirol gref i ddaearyddiaeth bregusrwydd cymdeithasol-gofodol, sydd fwyaf amlwg yng Nghymru, lle mae dros hanner y 10 y cant o gymdogaethau sydd fwyaf agored i niwed yn gymdeithasol o fewn 1km i'r arfordir.

Y newidynnau cymdeithasol o fregusrwydd ac anfantais o ran yr hinsawdd

Cafodd nifer o newidynnau eu nodi fel eu bod yn arwain at fod yn agored i niwed hinsoddol:

- tlodi ac amddifadedd
- preswylwyr newydd - p'un a chaiff ei gysylltu â dyfodiadau newydd yn gyffredinol neu gydag elfen o newydd-ddyfodiaid o dramor (fel yng Nghymru a Lloegr);
- symudoledd a mynediad - mae'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau ac adfer ohonynt yn swyddogaeth o symudedd personol a hygyrchedd gwasanaethau;
- sensitifrwydd – cafodd nifer o'r penderfynynnau o sensitifrwydd yr hinsawdd eu gosod mewn grŵp, gan ei gwneud yn bosibl i nodi ardaloedd gyda chyfrannau uchel o blant ifanc neu bobl hŷn. Yng Nghymru a'r Alban, roedd cysylltiad rhwng

oed a salwch, ac yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gwelwyd cysylltiad rhwng oed a chyfansoddiad y cartref;

- amlygiad uwch – cafodd rhai grwpiau o gymdogaethau eu nodi drwy ddangosyddion amgylcheddol. Yng Ngogledd Iwerddon cafodd cyfran y trigolion mewn tai aml-lawr eu nodi fel mesur penodol o fregusrwydd gymdeithasol-gofodol ynddo'i hun.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen cyfiawnder cymdeithasol newid hinsawdd JRF ewch i'w gwefan:

www.jrf.org.uk/work/workarea/climate-change-and-social-justice

Ymddiriedolaeth Carnegie

Mae Ymddiriedolaeth Carnegie hefyd yn archwilio'r cysylltiadau rhwng y newid yn yr hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol

'Bridging the gap between climate change, resource scarcity and social justice:The future role of civil society associations'

www.carnegieuktrust.org.uk/getattachment/971fba58-dc14-48b9-8b77-e6f7230cd26a/Bridging-the-Gap-Between-Climate-Change,-Resource-.aspx

'Making good society'

www.carnegieuktrust.org.uk/getattachment/425ea7ae-58fd-4751-a52e-2e78362c97f4/Making-Good-Society.aspx

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO)

Mae gan NCVO raglen sy'n cefnogi'r sector gwirfoddol yn Lloegr i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n agored i niwed a phrosiect newid hinsawdd sy'n helpu Mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed yn Lloegr i ddeall ac ymateb i'r peryglon penodol y gall eu buddiolwyr eu hwynebu yn sgil y newid yn yr hinsawdd. Cewch ragor o wybodaeth am y prosiect pobl sy'n agored i niwed a'r newid yn yr hinsawdd.

Yn 2009 cynhaliodd NCVO y prosiect The Big Response, gan helpu pedair elusen nad oeddent yn amgylcheddol i nodi sut allai'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar eu buddiolwyr a'u gwaith.

Roedd yr effeithiau allweddol a nodwyd yn cynnwys effaith uniongyrchol y newidiadau yn y tywydd ond hefyd effeithiau eilaidd ar bobl a'r gymdeithas, gan gynnwys cyflenwad ynni, cynnydd yng nghostau byw, cyllid sydd ar gael, effeithiau ar dai a phwysau cynyddol ar iechyd meddwl drwy ansicrwydd ac ymfudo.Rhoddodd y prosiect hwn gefnogaeth i fudiadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn; pobl ddigartref a rhai sy'n camddefnyddio sylweddau; pobl sy'n colli eu golwg a mudiadau sy'n darparu ymateb brys.

O'r prosiect, maent wedi datblygu canllaw ar-lein i'ch helpu i ystyried beth allai'r newid yn yr hinsawdd olygu ar gyfer eich mudiad.

I gael rhagor o fanylion gweler *The Big Response project* yn www.ncvo-vol.org.uk/thebigresponse

Cynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol

Cynhaliodd WCVA drafodaeth ford gron rhwng aelodau ei Gynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes datblygu cynaliadwy a newid hinsawdd. Tynnodd sylw at y cysylltiadau rhwng y materion o gydraddoldebau a newid hinsawdd, y tensiwn posibl a'r angen i weithio'n agosach gyda'i gilydd i ddatblygu trawsnewidiad cymdeithasol gyfiawn a darparu gallu ymaddasol ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed. Darparodd y ford gron astudiaethau achos o fudiadau sy'n gweithio i gefnogi grwpiau cydraddoldeb i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys menywod; grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; pobl anabl; grwpiau ffydd a'r gymuned ryngwladol. Gellir gweld yr adroddiad yma

Mae WCVA wedi gweithio gydag aelodau o'r Gynghrair Cydraddoldebau a Hawliau Dynol ac o'r Grŵp Arwain Newid Hinsawdd i ddarparu astudiaethau achos o waith y mae mudiadau yn ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mae'r rhain yn cynnwys

Chwarae Teg

Anabledd Cymru

Alltudion ar Waith

The Baring Foundation

Ym mis Medi 2008, lansiodd The Baring Foundation Fenter Arbennig gyda'r nod o archwilio'n benodol iawn sut i gefnogi mudiadau gwirfoddol nad ydynt yn amgylcheddol i archwilio sut bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar eu prif ddiben elusennol ac yna rhannu'r syniad newydd hwn gydag ymarferwyr a llunwyr polisïau. Roedd hwn yn cynnwys mudiadau sy'n gweithio i gefnogi materion o gyfiawnder cymdeithasol – Plant a Phobl Ifanc; canolbwynt cymunedau a ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Cafodd nifer o ymatebion eu datblygu drwy'r fenter hon; gellir gweld dolenni i'r rhain yn y ddogfen.

www.baringfoundation.org.uk/UnexaminedTruth.pdf

Pobl mewn tlodi

Mae methu â gweld y cysylltiad rhwng problemau newid hinsawdd a thlodi wedi golygu bod y symudiadau amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol wedi bod yn gweithio yn erbyn ei gilydd ar brydiau, yn hytrach na gweithio gyda'i gilydd. Mewn gwirionedd, nid yw codi pobl o dlodi a chreu amgylchedd cynaliadwy yn nodau gwrthgyferbyniol; mae'r nodau hyn mewn gwirionedd yn cefnogi'i gilydd. Mae '*Tackling climate change reducing poverty*' gan New Economic Foundation yn rhoi rhagarweiniad da i'r cysylltiadau hyn.

www.neweconomics.org/publications/tackling-climate-change-reducing-poverty

Mae nifer o fentrau Cymunedau yn Gyntaf yn dangos sut gellir gweithredu hwn ar lawr gwlad. Er enghraifft, i gael ysbrydoliaeth edrychwch ar y Dref Werdd, Blaenau Ffestiniog - www.sustainwales.com/cymraeg/astudiaethachos/cyngor-tref-blaenau-ffestiniog

Mae nifer o Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a gwella eu hamgylchedd. Mae pecynnau Eco-Ganllawiau Gweithredu Cymunedol hefyd yn rhoi gwybodaeth bellach. Gallwch weld y pecynnau canllaw yma

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:13/03/2012

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk